# Stori EIN Democratiaeth yn y DU y dylai POB DINESYDD *wybod.*

Mae'r 'stori' hon yn cynnwys y pethau sylfaenol y credwn dylsai pob dinesydd wybod er mwyn cymryd rhan yn llawn yn ein democratiaeth yn y DU. Mae angen i bob dinesydd fod yn wybodus am ddemocratiaeth y DU a chael ei annog yn weithredol i gymryd rhan, a gwybod ei fod yn hawl ddemocrataidd i herio, cwestiynu, protestio, siapio, beirniadu, dadlau a dylanwadu ar ein democratiaeth drwy'r flwyddyn ac nid yn y blwch pleidleisio yn unig.

**Mae'r wybodaeth hon mewn strwythur stori oherwydd bod ein hymchwil yn dangos mai defnyddio stori yw'r ffordd orau o ymgysylltu a rhannu gwybodaeth.**

**Mae holl gyd-grewyr ifanc Y Bocs Democratiaeth yn defnyddio'r saith pennod mewn ffordd creadigol er mwyn ailddweud y stori gan ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol, fideo, cerddoriaeth, rap, podlediadau a mwy.**

Y stori ar-lein

---

Gallwch ddod o hyd i enghreifftiau o sut maen nhw wedi ailddweud **y stori** hyd yma (https://www.thedemocracybox.co.uk/our-uk-democracy) trwy fynd i unrhyw un o'r dolenni hyn

- **Cyfres Podlediadau Y Bocs Democratiaeth** *(https://tinyurl.com/TDB-Podcast-Series)*
- **4 rap Y Bocs Democratiaeth a gomisiynwyd gan BBC Bitesize** *(https://tinyurl.com/TDB-Bitesize-Raps)*
- **Y Bocs Democratiaeth ar Instagram** *(https://www.instagram.com/thedemocracybox)*
- **Y Bocs Democratiaeth ar TikTok** *(https://www.tiktok.com/@thedemocracybox)*
- **Sianel YouTube Y Bocs Democratiaeth** *(https://tinyurl.com/TDB-YouTube)*
- **Y Bocs Democratiaeth ar Twitter** *(https://twitter.com/TheDemocracyBox)*

*Ysgrifennwyd Stori Ein Democratiaeth yn y Deyrnas Unedig y Dylai Pob Dinesydd Wybod mewn Saith Pennod© gan Yvonne Murphy gyda chymorth cyd-grewyr ifanc Y Democracy Box a gwiriwyd ffeithiau'r stori gan y Comisiwn Etholiadol. Bocs Democratiaeth© a'r holl gynnwys cysylltiedig yn hawlfraint Yvonne Murphy/Omidaze Productions 2020*

Am fwy o wybodaeth gweler www.thedemocracybox.co.uk ag www.omidaze.co.uk neu cysylltwch ag Omidaze yn omidaze@outlook.com

Darluniau gan Liv Winter a dyluniad gan Katie Price a Megan Penberthy

FSC
www.fsc.org
CYMYSGEDD
Papur o ffynonellau cyfrifol
FSC® C181648

# CYNNWYS


| | | |
|---|---|---|
| RHAGAIR | 4 | |
| PENNOD 1 | 6 | Cyflwyno arwr ein stori |
| PENNOD 2 | 13 | Taith yr arwr |
| PENNOD 3 | 18 | Y pedwar math o gynrychiolwyr etholedig y gall ein harwr 18 alw arnynt am gymorth |
| PENNOD 4 | 26 | Mae ein harwr yn deall bod y Senedd a'r Llywodraeth yn ddau beth gwahanol iawn |
| PENNOD 5 | 32 | Y gwahanol fathau o lywodraeth sydd gennym yn y DU |
| PENNOD 6 | 39 | Rheolau'r gêm rhan 1 – Oedran Pleidleisio |
| PENNOD 7 | 46 | Rheolau'r gêm rhan 2 – Systemau Pleidleisio |


# Rhagair

Ysgrifennwyd gan ormod o ddinasyddion i'w henwi

Gwyliwch y fideo

**Gwyliwch y fideo – 'Beth mae democratiaeth yn ei olygu i chi?'**
*(https://tinyurl.com/TDB-Video1)*

Pwy sy'n dal y pŵer? Pa bwer sydd gen i? Pam pleidleisio o gwbl? Pam cymryd rhan? Pam bod hyn o ***bwys***? Wnaiff e ddim gwahaniaeth. Ma' nhw i gyd yr un fath ta beth. Rwy' wedi cael digon o wleidyddiaeth. Beth sydd a wnelo Democratiaeth â mi? Pwy sy'n becso? 'Stim amser 'da fi i'r peth. Sut fydd e'n helpu? Beth fydd o'n wneud? Ym mhwy ydw i'n ei ymddiried? Ymhle ydw i'n dod o hyd i'r gwir? Beth yw pleidlais ta beth? Beth yw datganoli? Pam na ddysgais i hyn i gyd yn yr ysgol? Pam nad ydw i'n gweld unrhyw un nac yn clywed gan unrhyw un nes eu bod nhw eisiau fy mhleidlais? Pwy sy'n fy nghynrychioli a pham, sut a ble? Beth yw'r Cyntaf i'r Felin ta beth? Beth yw'r gwahaniaeth rhwng y senedd a'r llywodraeth? Beth yw etholiad? Am beth mae o? Beth sydd â wnelo hyn oll â ***mi?***



Wel yn siŵr y *gallech* chi sefyll yno yn gweiddi ar y cyrion neu fe allech chi gymryd rhan mewn gwirionedd a bod yn rhan o'r stori.

## Oherwydd hon ydy'ch stori chi.

## Ein stori ni yw hi.

Ysgrifennwyd gan y rhai a **aethant o'n blaen** a gan bob un ohonom **rwan** a phawb sydd **eto i ddod.**

## Democratiaeth ydy'r bobl. Sefwch i fyny a chael eich cyfri.

Gwyliwch y fideo

***Stand Up gan cyd-grewr ifanc Saskia Pay***
*(https://tinyurl.com/TDB-Video2)*

# PENNOD 1:

## Cyflwyno

# ARWR

## ein stori

# Arwr ein stori yw chi

Gwyliwch y fideo

**Gwyliwch y rhaglun ffilm Darganfod Democratiaeth ar YouTube**
*(https://tinyurl.com/TDB-Video3) gan y cyd-grewyr ifanc Thandi a Katherine*

Arwr ein stori yw chi. Chi yw calon y stori. Chi y darllenydd. Y gwyliwr. Y gwrandäwr. Chi y dinesydd. Chi y Pleidleisiwr! Hebddoch chi, ni fysa ein stori cyfunol democrataidd yn bodoli mewn gwirionedd. Mae'r pobl yn rheoli a golyga hyn bod chi'n rheoli!

Fel pob arwr ym mhob stori dda bydd yn rhaid i chi fynd ar antur. Mae eich antur yn cychwyn fan hyn. Bydd yn rhaid i chi wynebu heriau a bydd yn rhaid i chi gasglu gwybodaeth wrth i chi fynd ar eich ffordd er mwyn eich helpu chi i fapio'r siwrnai. Rhaid i chi gasglu **13 Thocyn Gwybodaeth**, **7 Ffaith Allweddol** a dod o hyd i **10 Ffordd o Gymryd Rhan** yn ein democratiaeth ni yn y Deyrnas Unedig.

**Eich cyfrifoldeb chi yw galluogi arwyr eraill a rhoi cymorth i bawb wybod sut i godi eu lleisiau drwy gydol y flwyddyn ac nid yn y blwch pleidleisio'n unig.**

Eich her chi yw darllen y stori hon, rhannu'r stori a'i hadrodd ymhell ac agos i bob un person ym mhob cwr o'r deyrnas nes bod gan bawb:-

1. **Ddealltwriaeth sylfaenol o'n democratiaeth bresennol ni yn y DU a'r ddealltwriaeth bod democratiaeth yn fwy na'r blwch pleidleisio a'i fod yn bodoli trwy gydol y flwyddyn a bod pawb yn deall bod democratiaeth yn cychwyn gyda nhw eu hunain.**
2. **Yr hyder ac ymddiriedaeth yn ein democratiaeth a'r teimlad eu bod yn cael eu clywed a'u bod yn gallu cymryd rhan.**
3. **Ddealltwriaeth nad yw democratiaeth yn sefydlog a'i bod yn cael ei ffurfio gan y bobl ar gyfer y bobl.**
4. **Yr hyder a'r caniatâd i gwestiynu a herio ein democratiaeth bresennol.**
5. **Oherwydd dyna hanfod democratiaeth weithredol.**

*Y* **Tocyn Gwybodaeth** *cyntaf fydd yn rhaid i chi ei gasglu cyn eich bod yn cychwyn yw dealltwriaeth o'r gair democratiaeth ei hun.*

K

## Tocyn Gwybodaeth 1

## Ystyr y gair democratiaeth

*Daw'r gair democratiaeth o ddau air Groegaidd sy'n golygu pobl (demos) a rheol (kratos).*

*Mae democratiaeth yn system o lywodraeth lle mae'r pŵer yn nwylo'r bobl, sydd naill ai'n rheoli yn uniongyrchol neu, yn achos y DU, yn anuniongyrchol drwy gynrychiolwyr a etholwyd yn rhydd, y gallwn ddisodli trwy drosglwyddo pŵer yn heddychlon.*

Mewn democratiaeth gynrychioliadol rydych chi'n pleidleisio dros bobl i'ch cynrychioli chi.

Eich **hawl** chi yw pleidleisio. Eich **braint.**

Fodd bynnag, mae democratiaeth yn fwy na phleidleisio ac etholiadau yn unig.

**Mae ar ddemocratiaeth eich angen chi bob un dydd o'r flwyddyn, nid ar ddiwrnod yr etholiad yn unig.**

Mae ein democratiaeth yn gofyn eich bod chi a phawb arall yn gymwys i ddeall sut mae pethau'n gweithio, fel bod modd i chi ddefnyddio'ch pŵer, dweud eich dweud a hybu newid cadarnhaol drwy gydol y flwydd.

---

Cymerwch ran drwy wneud rhywbeth syml fel cychwyn sgwrs a rhannu'r stori hon neu defnyddiwch eich rhyddid barn, ewch i wirfoddoli neu byddwch yn rhan o gymdeithasau a grwpiau lleol a dod o hyd i ffyrdd, bach a mawr, o gymryd rhan ym mywyd dinasyddol eich cymuned leol a thu hwnt. Neu dechreuwch drwy arwyddo neu gychwyn deiseb, protestio, ymgyrchu, lobïo, cyfrannu tuag at ymchwil pwyllgor, cysylltu â'r wasg a'r cynrychiolwyr etholedig neu drwy ymuno â senedd ieuenctid a cheisio am swydd gyhoeddus.

Cydweithrediad a chyd-drafod yw democratiaeth. Mae'n golygu gallu meddwl yn feirniadol, dadlau a dod i gonsensws.

Mae democratiaeth yn gymdeithas sy'n cael ei hystyried yn gymuned o ddinasyddion sydd wedi'i chysylltu gan fuddiannau cyffredin a gweithgarwch ar y cyd.

Mae democratiaeth yn effeithio ar eich bywyd bob dydd. O sut a phryd mae eich sbwriel yn cael ei gasglu a'ch strydoedd yn cael eu trwsio, i sut mae eich ysgol a'ch ysbyty yn cael eu rhedeg, i sut rydych chi'n cydweithio ag eraill yn eich cymuned er budd eich cymuned.

**Cofiwch!** - Nid mater o bleidleisio ac etholiadau yn unig mo democratiaeth

Mae'n ymwneud â dweud eich dweud bob diwrnod a dwyn eich cynrychiolwyr etholedig i gyfrif. Mae democratiaeth yn golygu gallu dylanwadu, cyfrannu a chynorthwyo i ffurfio'r gymdeithas hoffech chi ar eich cyfer chi eich hunain, y sawl rydych yn eu caru, eich cymuned gyfredol ac ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. Mae Democratiaeth yn effeithio ar ein bywydau ni bob un diwrnod. Mae democratiaeth yn eich effeithio chi a'r strydoedd lle rydych chi'n byw, eich teulu, eich cyfeillion a'ch cymdogion. Mae'n effeithio ar eich cymuned leol, eich tref, eich dinas, eich ardal a'ch gwlad.

**Gwrandewch ar bennod 2 o bodleidiad Y Bocs Democratiaeth**
*(https://tinyurl.com/TDB-Podcast2)*

Gwrandewch ar y podlediad

**Peidiwch â bod yn ddi-rym ac wedi'ch cau allan.** Byddwch yn arwr y stori trwy ddarllen y stori a rhannu'r stori hon. Darllenwch bob un o'r saith pennod a darganfyddwch bopeth sydd angen i chi ei wybod i ddechrau taith eich arwr.

**Darganfyddwch pwy all eich helpu. Nid ydych chi ar eich pen eich hun.**
Mae gennych gynrychiolwyr yr ydych yn eu hethol i'ch cynrychioli mewn cynghorau a seneddau/deddfwrfeydd (dyna lle mae'r cyfreithiau'n cael eu gwneud) ledled y DU. Mae angen i chi ddarganfod pwy ydyn nhw a gwneud yn siŵr eu bod yn cynrychioli chi'n iawn drwy'r amser.

Rydych yn ethol y bobl yr ydych am eu cynrychioli yn eich cyngor a'ch senedd i drafod pethau ar eich rhan. Rydych chi'n ethol cynrychiolwyr i wneud y cyfreithiau ar eich rhan ac i edrych yn ofalus ar bopeth sy'n digwydd ac ar yr hyn y mae llywodraethau'n penderfynu arno.

Ac rydych chi'n ethol y bobl sy'n ffurfio'r llywodraethau yma.

Mae'r holl gynrychiolwyr etholedig hynny yn cael eu talu gennych chi ac yn gweithio i chi ac mae'n rhaid iddynt wrando arnoch chi drwy gydol y flwyddyn nid yn unig yn ystod adeg yr etholiadau.

**Eich hawl chi yw pleidleisio. Eich braint.**

**Mae cymryd rhan yn ein democratiaeth ni drwy gydol y flwyddyn yn un o'ch hawliau chi hefyd.**

**Rydych yn rhan o gymuned.**

**Nid ydych chi ar eich pen eich hun.**

---

Eich her, os dewiswch ei derbyn, yw i ddarllen y stori hon, rhannu'r stori, ei pherchnogi ac arfer yr hawl honno. Ac wrth wneud hynny byddwch yn galluogi eraill yn eich cymuned i wneud yr un peth.

Rhaid i chi gasglu **13 Thocyn Gwybodaeth, 7 Ffaith Allweddol** a dod o hyd i **10 Ffordd o Gymryd Rhan** yn ein democratiaeth yn y DU ar hyd y ffordd.

Bitesize Raps

**Gwyliwch raps 1-4 o gyfres Y Bocs Democratiaeth Rap**
***gan Saskia Pay ar BBC Bitesize***
*(https://tinyurl.com/TDB-Bitesize-Raps)*

**Gall fod yn Arwr Democratiaeth deimlo'n heriol a hyd yn oed hynod anodd ar brydiau. Mae'r ffaith eich bod chi'n oedi'n gwneud synnwyr. Fodd bynnag, nid ydych ar eich pen eich hun ac yn yr un modd a gwaith unrhyw arwr mae'r antur hwn yn un hanfodol a bydd yn newid bywydau, yn cynnwys eich bywyd chi eich hun.**

**Ydych chi'n barod?**

# Yna gadewch i'r stori ddechrau.

Un tro, roedd yna arwr democratiaeth a ddewisodd fynd ar ymgais i ddeall ac yna rhannu hanfodion eu democratiaeth y wlad gyfan ar draws y wlad. Roedd ein harwr wedi blino teimlo ***'n ddi-rym*** ac ***wedi'i eithrio***. Roeddent am gyfrannu, teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a'u clywed ac roeddent am ddylanwadu ar newid yn gadarnhaol.

Roedd ein harwr yn credu, pe gallent ddeall hanfodion sut roedd eu gwlad yn gweithio ac yn ffitio gyda'i gilydd yna efallai, dim ond efallai y byddan nhw'n gallu gwneud gwahaniaeth. Ac os ydyn nhw wedyn yn rhannu'r stori hon gyda phobl ar draws y tir yna efallai, dim ond efallai, gallai pawb ddeall hanfodion ein democratiaeth hefyd ac yna gallai pawb deimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a'u clywed trwy gydol y flwyddyn.

Dyma stori am ddemocratiaeth bob dydd ac **arwyr** bob dydd.

Mae democratiaeth

"ynghylch y defnydd cyfrifol o bŵer gan y bobl ac ar eu cyfer... Dylai'r rhai sy'n teimlo'n ddi-rym ac wedi'u hallgáu ar hyn o bryd allu dysgu sut i gael dweud eu dweud yn effeithiol am faterion sy'n eu poeni, a gwneud rhywbeth yn eu cylch. Mi fydd y gymdeithas yn well o ganlyniad."

Titus Alexander – Practical Politics




## Rydych yn arwr democratiaeth.

## Ydych chi'n barod?

## Dewch i ni gychwyn arni.

**Ffaith allweddol**

Mae democratiaeth yn ymwneud â chi. Nodwedd sylfaenol democratiaeth yw gallu pob pleidleisiwr i gymryd rhan yn rhydd ac yn llawn ym mywyd eu cymdeithas.

# PENNOD 2:

# TAITH yr ARWR

"Dros y 50 mlynedd diwethaf mae nifer y bobl sy'n pleidleisio mewn etholiadau cenedlaethol wedi gostwng o tua 80% i 60% ...Gyda llai o bobl yn pleidleisio, mae democratiaeth yn mynd yn ddiystyr."

Peter Macfadyen – Flatpack Democracy

*(nb yn etholiadau Cymru mae'n llai na 50%)*

# Nid yw ein Democratiaeth yn y DU yn sefydlog

Nid oedd o erioed. Mae'r gwahanol fathau o lywodraeth, oedrannau pleidleisio, systemau pleidleisio wedi'u creu, eu siapio a'u newid gan arwyr yn y gorffennol a'r presennol a rhaid iddynt barhau i symud a newid i ddiwallu anghenion cenedlaethau'r dyfodol.

**Bydd angen rhai hanfodion sylfaenol arnoch ar eich siwrnai ddemocratiaeth.**

Gweler isod **4 Tocyn Gwybodaeth** a **10 Ffordd o Gymryd Rhan**. Darllenwch y rhain ac yna rhannwch y cwbl gyda phawb byddwch yn cwrdd ar eich siwrnai. Byddant yn eich cadw chi i fynd pan fyddwch yn flinedig ac yn llesg.

## Tocyn Gwybodaeth 2
## Rheol y Gyfraith

Syniad allweddol rheolaeth y gyfraith yw y dylai'r gyfraith fod yr un mor berthnasol i bob rheolwr a'r pobl sy'n cael ei rheoli. Mae hyn yn sicrhau 'llywodraeth cyfraith' ac nid 'llywodraeth dynion'. Yn yr un modd, mae rheolaeth y gyfraith yn sefydlu'r berthynas rhwng y llywodraeth a'r bobl. Nid oes unrhyw un, nid hyd yn oed y Prif Weinidog, uwchlaw'r gyfraith. Mae Rheolaeth y Gyfraith yn atal camddefnydd o bŵer gan y wladwriaeth ac yn ei wneud yn ofynnol i bawb ddilyn y gyfraith, yn sicrhau bod hawliau cyfreithiol yn cael eu cyflawni a bod ein barnwyr a'n llysoedd yn annibynnol.

## Tocyn Gwybodaeth 3
## Y Cyfryngau

Mae gan y DU hanes cyfryngau annibynnol cryf gyda llawer o wahanol deitlau papurau newydd, sianeli teledu a radio. Rôl y cyfryngau yw hysbysu'r cyhoedd am faterion pwysig sy'n effeithio arnynt boed yn lleol, yn genedlaethol neu'n rhyngwladol.

Mae llawer o ddarlledwyr (BBC, ITV, C4) wedi ysgrifennu yn eu siarteri bod yn rhaid iddynt hysbysu pob dinesydd am ein democratiaeth yn y DU.

Mae papurau newydd yn parhau i fod yn ffynhonnell bwysig o wybodaeth wleidyddol gyda miliynau'n cael eu gwerthu a'u darllen ar-lein bob dydd.

## Tocyn Gwybodaeth 4
# Rhagfarn

Nid yw'r cyfryngau yn ddiduedd. Nid oes rhaid i bapurau newydd fod yn ddiduedd, ond yn gyffredinol mae angen i newyddiadurwyr teledu a radio fod yn ddiduedd. **Gallwch edrych ar OfCom** *(http://tinyurl.com/OFcom-link-CYM)* am ragor o wybodaeth. Gall papurau newydd a chyfryngau gwahanol ddewis adrodd y newyddion mewn gwahanol ffyrdd. Gall papurau newydd gymryd agwedd unochrog trwy eu dewis o benawdau, lluniau a straeon. Mae papurau newydd yn aml yn cefnogi un blaid wleidyddol. Gall hyn newid. Mae'n bwysig deall pa duedd wleidyddol sydd gan wahanol ffynonellau cyfryngol. Weithiau mae'n dibynnu ar bwy sy'n berchen ar y cyfryngau hwnnw. Mae rhai yn annog neu'n ceisio dylanwadu ar eu darllenwyr i bleidleisio dros un blaid wleidyddol arall yn y cyfnod cyn etholiad.

OfCom

## Tocyn Gwybodaeth 5
# Newyddion Ffug

Mae'r rhyngrwyd a'r cyfryngau cymdeithasol yn caniatáu mynediad at wybodaeth sydd bron yn diderfyn ar gyfer y bobl sy'n golygu bod y cyhoedd yn fwy gwybodus nag erioed o'r blaen. Gan fod y rhyngrwyd yn caniatáu i bron unrhyw un bostio bron unrhyw beth a ddewisant, nid yw pob darn o ybodaeth ar y rhyngrwyd yn gywir. Gwiriwch y dyddiad, ffynhonnell, awdur, manylion, cyllidwr, ffeithiau trwy ffynonellau eraill. Os ydych yn hoffi rhywun sy'n boblogaidd ar y we neu os ydych yn dilyn gwefan, neu fforwm, neu berson enwog neu seren fawr, dylech wirio eu ffeithiau nhw bob tro.

**Ewch i'r Comisiwn Etholiadol** *(https://tinyurl.com/electoral-commission)* - ffynhonnell wybodaeth ddiduedd y gallwch ymddiried ynddi ar gyfer popeth sy'n ymwneud ag etholiadau a democratiaeth.

Comisiwn Etholiadol

Gallwch hefyd ddefnyddio pethau fel gwirwyr ffeithiau i wirio a yw stori/ffaith yn ffug neu os fedrwch ymddiried ynddo. (*https://fullfact.org/* a *https://www.bbc.co.uk/news/reality_check*)

# 10 Ffordd i gael eich ddweud

*Mae democratiaeth amdan cael eich dweud a cymryd rhan trwy gydol y flwyddyn.*

**Boed hynny trwy arfer eich rhyddid i lefaru, cymryd rhan yn eich cymuned leol yn gwirfoddoli, dechrau neu arwyddo deiseb, protestio, ymgyrchu, ymuno â senedd ieuenctid, lobïo, cysylltu â'ch cynrychiolydd etholedig, neu dod o hyd i ffyrdd mawr a bach i gymryd rhan mewn gweithgareddau Dinesig a Cymdeithas Sifil.**

**Dyma ddeg ffordd i bob arwr wneud yn siŵr bod eu llais yn cael ei glywed a fel y gallant helpu i siapio a newid eu hardal leol, rhanbarth, cenedl, gwlad er gwell iddynt hwy eu hunain, eu teuluoedd, ffrindiau, cymdogion, cymunedau ac ar gyfer cenedlaethau y dyfodol.**

## 1. Cael sgyrsiau

Siaradwch â theulu a ffrindiau a rhannwch y *Stori Ein Democratiaeth yn y DU y dylai pob dinesydd ei gwybod*. Eglurwch yr uchod i arwyr eraill.

Mae meddwl beirniadol, dadlau, cydweithio, herio, protestio, ymgyrchu, cyrraedd consensws (cytundeb) i gyd yn allweddol i ddemocratiaeth sy'n gweithio'n dda.

## 2. Gwirfoddolwch a chymerwch ran yn eich cymuned leol

Mae democratiaeth yn dechrau y tu allan i'ch drws ffrynt ac yn eich cymuned leol trwy gydol y flwyddyn. Dewch i adnabod eich cymdogion. Darganfyddwch a chymerwch ran mewn grwpiau a chymdeithasau gwirfoddol sy'n cynrychioli anghenion eich cymuned leol a'r pethau sy'n bwysig i chi.

Os nad oes un yn bodoli eisoes, dechreuwch un!

Beth ydych chi am ei newid neu helpu i'w drwsio? Pa grŵp(iau) sydd eisoes yn bodoli sy'n dechrau gwneud y newid yr hoffech ei weld ac sut fedrwch ei gefnogi?

Gwirfoddolwch i helpu gyda gardd gymunedol leol, neu ysgol (fel helpu i wrando ar blant yn darllen neu ddod yn llywodraethwr ysgol neu helpu gyda'r Gymdeithas Rhieni ac Athrawon) neu ddarganfod mwy am eich bwrdd iechyd lleol, plwyf, cymuned a/neu Gyngor Tref.

Darganfyddwch am y **Cynulliadau Dinasyddion** *(https://citizensassembly.co.uk)*, **Cyllidebu Cyfranogol** (*https://tinyurl.com/LGA-topic*) a mentrau lleol a fydd yn eich helpu i godi eich llais a chael eich clywed am yr hyn sy'n bwysig i chi, eich teulu a'ch ffrindiau.

Cynulliadau Dinasyddion

LGA topic

## 3. Darganfyddwch pwy yw eich Cynghorwyr, Aelodau Senedd Datganoledig (os ydych yn byw yng Nghymru, yr Alban neu Ogledd Iwerddon) a'ch AS, a cysylltwch â nhw am yr hyn sy'n bwysig i chi yn lleol, yn genedlaethol ac yn rhyngwladol

Dewch o hyd iddyn nhw yn **Write To Them** *(https://www.writetothem.com)* a **They Work For You** *(https://www.theyworkforyou.com)*. Cysylltwch â'ch cynrychiolwyr etholedig trwy lythyr, e-bost, ffôn, cyfryngau cymdeithasol ac yn bersonol. Dylent i gyd gynnal "cymorthfeydd" sy'n golygu diwrnod pan fyddant yn cynnal cyfarfodydd wyneb yn wyneb â'r bobl y maent yn eu cynrychioli. Mae rhai yn sesiynau galw heibio a rhai trwy apwyntiad.

Write To Them

They Work For You

## 4. Protestio, Ymgyrchu a Threfnu

Ymunwch ag eraill i godi eich llais ac, os ydych yn byw yng Nghymru, defnyddiwch **Ddeddf Cenedlaethau'r Dyfodol yng Nghymru** (https://tinyurl.com/future-generations) i ddwyn cyrff cyhoeddus a chynrychiolwyr etholedig i gyfrif. Eich hawl chi yw rhyddid i ymgynnull (cyduno ag eraill yn gyhoeddus). Gwybod eich hawliau. Mynnwch gopi o'r llyfr Pasbort Dinesydd Ifanc – canllaw i'r rhannau hynny o'r gyfraith sydd fwyaf perthnasol i fywyd bob dydd pobl ifanc yng Nghymru a Lloegr.

Cenedlaethau'r Dyfodol

## 5. Cysylltwch â'r cyfryngau

O dudalennau yn eich papurau lleol a chenedlaethol, i gysylltu â newyddiadurwyr yn y wasg a chyfryngau wedi'u recordio (teledu) i'r cyfryngau cymdeithasol neu'n syml ysgrifennu blog.
'Hawl pobl i fynegi eu barn yn gyhoeddus heb ymyrraeth lywodraethol, yn ddarostyngedig i gyfreithiau yn erbyn enllib, ysgogi trais neu wrthryfela, ac ati' yw rhyddid i lefaru. Cofiwch bob amser y rheolau syml ein Rhyddid i Lefaru – ei bod yn dod â dyletswyddau a chyfrifoldebau i amddiffyn rhyddid a hawliau eraill yn ogystal â ni ein hunain ac i beidio ag ysgogi trais na chasineb.

## 6. Cychwyn deiseb

Cychwyn deiseb a chael ei thrafod gan gorff datganoledig megis **Senedd Cymru** (*https://petitions.senedd.wales*) neu *Senedd y DU (https://petition.parliament.uk).*

Deisebau Cymru

Deisebau DU

## 7. Cyfrannu at ymchwil pwyllgor

Mae'n rhaid iddyn nhw wrando arnoch chi! Gwyliwch am ymgynghoriadau cyhoeddus hefyd a gwnewch yn siŵr eich bod yn dweud eich dweud am unrhyw beth sy'n bwysig i chi.

## 8. Ymuno â Chyngor Ysgol, Senedd Ieuenctid neu sefyll am swydd gyhoeddus

Gallwch gynrychioli eraill yn yr ysgol gynradd ac/neu uwchradd ac/neu Senedd Ieuenctid yn 11-18 oed, a phan fyddwch yn 18 oed neu hŷn, cewch ymgeisio am swydd gyhoeddus. Ie chi!!! Dod yn Gynghorydd neu hyd yn oed sefyll i gael eich ethol yn Aelod o senedd ddatganoledig neu senedd y DU.

## 9. Cofrestru i Bleidleisio

**Cofrestrwch i bleidleisio** yn *https://www.gov.uk/register-to-vote.*

Cofrestru i bleidleisio:
yn 14 os ydych yn byw yng Nghymru neu'r Alban
neu 16 os ydych yn byw yn Lloegr neu Ogledd Iwerddon

Cofrestrwch i bleidleisio

## 10. Pleidleiswch


**Edrychwch ar Y Comisiwn Etholiadol** i gael gwybodaeth gyhoeddus ddiduedd a dibynadwy am eich pleidlais a'r holl etholiadau. (https://tinyurl.com/electoral-commission)
Hefyd
**Where do I vote?** *(https://wheredoivote.co.uk)* a
**Who can I vote for?** *(https://whocanivotefor.co.uk)*

Comisiwn Etholiadol

Where do I vote?

Who can I vote for?

DEMOCRACY IS NOT SET IN STONE. IT'S SHAPED BY THE PEOPLE, FOR THE PEOPLE. THE LAW APPLIES EQUALLY TO ALL RULERS AND RULED ALIKE.




HERE ARE 10 WAYS FOR EVERY HERO TO MAKE THEIR VOICE HEARD

1. Share the Story of our Democracy with other heroes.
2. Volunteer and get involved in your local community.
3. Get in touch with your councillors, Members of Devolved Parliament and MP.
4. Protest, Campaign and organise.
5. Contact the media.
6. Start a Petition, get it debated by your devolved Parliament or the Uk Parliament.
7. Contribute towards a committee's research.
8. Join a school council/a Youth Parliament/ if you're over 18 stand for Public Office.
9. Register to vote.
10. VOTE! Check the Electoral Commission for unbiased voting info!

ILLUSTRATIONS BY OLIVIA WINTER

# PENNOD 3:

## Y pum math o GYNRYCHIOLWYR ETHOLEDIG gall ein harwr alw arno ar gyfer help

"Mae hawliau a rhyddid democrataidd heb y sgiliau a'r wybodaeth i'w defnyddio fel bod yn berchen ar gar a heb allu ei yrru."

Titus Alexander – Practical Politics

# Mae gan bob arwr fwy nag un cynrychiolydd etholedig

Nawr bod gennych y **6 Thocyn Gwybodaeth** cyntaf a'ch bod wedi dod o hyd i **10 Ffordd o Gymryd Rhan** rydych yn bell ar eich ffordd erbyn hyn. Eich her nesaf yw dod o hyd i gynrychiolwyr etholedig i'ch helpu chi ar eich taith arwr democratiaeth.

Cynrychiolir pawb yn y DU gan AS a sawl cynghorydd. Mae pawb yng Nghymru a Lloegr hefyd yn ethol Maer neu Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu. Os ydych yn byw yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon rydych yn ethol aelodau o'r senedd/ddeddfwrfa ddatganoledig honno hefyd.

Rydych yn ethol y bobl rydych am iddynt eich cynrychioli chi ar eich Cyngor ac yn Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn San Steffan (ac yn eich Seneddau datganoledig yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon hefyd os ydych yn byw yn y fan honno) er mwyn iddynt drafod pethau ar eich rhan.

Rydych yn ethol cynrychiolwyr i greu deddfau ar eich rhan ac i edrych yn ofalus iawn (llygadi'n graff) ar arweinwyr y llywodraeth a'r cyngor. Rydych yn ethol y bobl fydd wedyn yn ffurfio'r llywodraethau sy'n cynnal y Deyrnas Unedig a Chymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Mae'r holl gynrychiolwyr etholedig hynny yn cael eu talu gennych chi ac maent yn gweithio er eich mwyn chi ac mae'n rhaid iddynt wrando arnoch chi drwy **gydol y flwyddyn** nid ar adeg etholiad yn unig.

**Gwyliwch rapiwr a'r cyd-grewr ifanc BlankFace yn esboni'r gwahanol lefelau o lywodraeth yn ei ffordd unigryw ei hun** *(https://tinyurl.com/TDB-Video4)*

Write To Them

They Work For You

Gwyliwch y fideo

## Her Arwr

dod o hyd i'ch cynrychiolwyr etholedig yn:
**Write To Them** (*https://www.writetothem.com*) a
**They Work For You** (*https://www.theyworkforyou.com*).

## 1. Cynghorwyr

Etholir cynghorwyr gan Ward/Dosbarth i'ch cynrychioli ar lefel llywodraeth leol. Mae cynghorwyr yn cynrychioli ardaloedd etholiadol a elwir yn Adrannau, Wardiau, Rhanbarthau neu Adran Etholiadol Awdurdod Unedol (UTE). Rwy'n gwybod na allech chi wneud y pethau hyn i fyny. Dyma pam mae her yr arwr mor gymhleth! Mae'n golygu ardal o gwmpas lle rydych chi'n byw. Mae wir yn bwysig eich bod chi'n gwybod pwy yw eich cynghorwyr oherwydd maent yn gyfrifol am benderfyniadau ac yn gwneud penderfyniadau ynghylch yr holl bethau yn eich ardal leol. Y pethau sy'n effeithio arnoch chi o ddydd i ddydd. Bydd gennych nifer o gynghorwyr sy'n eich cynrychioli ar lefel cyngor dinas, sir, dosbarth neu fwrdeistref a elwir yn aml yn eich Awdurdod Lleol. Efallai y bydd gennych hefyd gynghorwyr sy'n eich cynrychioli mewn cynghorau tref, cymuned a phlwyf hefyd.

**Dewch o hyd iddyn nhw i gyd. Pwy yw eich un chi?**

## 2. Meiri

Mae'r rhan fwyaf o awdurdodau lleol yn dewis yr hyn sy'n cael ei alw'n fodel 'arweinydd a chabinet' lle dewisir cynghorydd i arwain y cyngor gan ba bynnag blaid a gafodd y mwyafrif o bleidleisiau. Mae rhai llefydd (fel Llundain a Manceinion) yn defnyddio model 'maer a chabinet', lle etholir y maer ar wahân ac mae'n cymryd lle arweinydd y cyngor.

Mae gan nifer o awdurdodau lleol (pa un ai bod ganddynt faer etholedig ai peidio) faer seremonïol hefyd heb unrhyw bwerau gweithredol ond gall agor gwyliau, mynychu digwyddiadau, gall gynrychioli'r Cyngor a gwisgo cadwyn swyddfa... Mae'r ddwy swyddogaeth, y maer etholiadol neu'r arweinydd cyngor enwebedig a maer seremonïol yn bodoli ar y cyd.

**Oes gennych chi faer sy'n eich cynrychioli chi?**

## 3. Aelodau Seneddol (ASau)

Mae ASau yn eich cynrychioli ar lefel Senedd y DU yn San Steffan yn Llundain. Cynrychiolir pawb yn y DU gan AS yn senedd y DU. Mae yna 650 o ASau yn cynrychioli 650 o etholaethau. Mae ASau ac Aelodau Seneddau Datganoledig yn cynrychioli pobl sy'n byw mewn ardal ddaearyddol swyddogol a elwir yn Etholaeth sy'n ardal leol fwy na ward/dosbarth.

**Pwy yw eich AS?**

## 4. Aelodau seneddau datganoledig (AS, ASA, ACD)

Etholwyd i gynrychioli pobl Cymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon yn Seneddau/Deddfwrfeydd Cymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon.

Mae Aelodau Senedd (AS) ac Aelodau Senedd yr Alban (ASA) yn cael eu hethol fesul etholaeth a rhanbarth. Mae Aelodau'r Cynulliad Deddfwriaethol (ACD) yng Ngogledd Iwerddon yn cael eu hethol fesul etholaeth yn unig.

**Dewch o hyd i'ch AS, ASA neu ACD. Faint sydd gennych chi?**

## 5. Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu (CHTh)

Mae Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu (CHTh) yn eich cynrychioli chi o fewn eich heddlu lleol. Maent yn sicrhau bod yr heddlu lleol yn eich ardal yn ateb gofynion y gymuned. Mae yno 39 ardal heddlu ar draws Cymru a Lloegr a chanddynt CHTh. Mae gan bob ardal un comisiynydd. Yn Llundain Fwyaf, Manceinion Fwyaf a Gorllewin Swydd Efrog mae'r maer yn cynnal dyletswyddau'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu. Nod y Comisiynwyr Heddlu a Throseddu yw lleihau trosedd a darparu gwasanaeth heddlu effeithiol ac effeithlon o fewn yr ardal heddlu maent yn gyfrifol amdani. Fe'u hetholir gan y cyhoedd er mwyn dwyn y Prif Gwnstabl a'r heddlu i gyfrif ar eu rhan.

Mae Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu yn:

- Gosod cyllid yr heddlu ac yn sicrhau y caiff ei wario'n effeithlon
- Penodi Prif Gwnstabl yr heddlu lleol
- Ymgysylltu â'r cyhoedd a'r sawl sydd wedi dioddef o ganlyniad i drosedd er mwyn cynorthwyo i greu cynlluniau heddlu a throsedd a threfnu prosiectau o fewn y gymuned
- Gweithio'n agos gyda'r cyngor lleol a sefydliadau cymunedol eraill ar y cynlluniau a'r prosiectau hyn

**A oes Comisiynydd Heddlu a Throseddu gyda Chi?**


### Her Arwr

Nawr helpwch o leiaf dau berson rydych chi'n eu hadnabod i ddod o hyd i'w holl gynrychiolwyr etholedig hefyd!

**Ffaith allweddol**

Mae gennych chi fwy nag un cynrychiolydd. Cynrychiolir pawb yn y DU gan AS a sawl cynghorydd ac mae rhai hefyd yn ethol maer. Os ydych yn byw yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon rydych yn ethol aelodau o'r senedd/ddeddfwrfa ddatganoledig honno hefyd. **Dewch o hyd i'ch holl gynrychiolwyr etholedig** yn *https://www.writetothem.com*

Write to Them



## Yr Alban

mae ganddo 129 o Aelodau'r Senedd yr Alban (ASA)

Yn yr Alban mae gan ein harwr 1 ASA etholaeth a 7 ASA rhanbarthol.

## Gogledd Iwerddon

mae ganddo 90 o Aelodau'r Cynulliad Deddfwriaethol (ACD)

Yng Ngogledd Iwerddon mae gan ein harwr 5 ACD etholaethol.

## Cymru

Ar hyn o bryd mae gan Gymru 60 Aelod o Senedd Cymru.

Fodd bynnag wrth i ni ysgrifennu'r ddogfen hon mae yno fesur wrthi'n cael ei gyflwyno drwy Senedd Cymru sydd, ymysg pethau eraill, yn ceisio cynyddu maint y Senedd i 96 aelod.

Ar y pwynt ysgrifennwyd y stori hon roedd gan ein harwr yng Nghymru 1 Aelod o'r Senedd ar gyfer ei etholaeth leol a phedwar Aelod o'r Senedd ranbarthol.

**Nawr rydych yn llai unig yn y byd.**

Mae gennych nifer o gynrychiolwyr etholedig a all ymuno â chi ar eich siwrnai ddemocrataidd. Mae'n rhaid i'r cynrychiolwyr etholedig hyn wrando arnoch chi ac ystyried o ddifrif y materion sy'n bwysig i chi a rhaid iddynt sicrhau bod yr holl leisiau i'w clywed yn gyfartal.

Ac os ydych yn amau unrhyw beth, gallwch ymweld â'r oracl (fel arfer, pan nad yw' rhan o stori, cyfeirir ato fel Y Comisiwn Etholiadol) mae'n ffynhonnell o wirionedd gallwch ei ymddiried ynddi ac mae'n rhoi gwybodaeth i'r cyhoedd mewn dull ffeithiol a diduedd ynghylch bob dim sydd a'u gwnelo â phleidleisio ac etholiadau (*https://tinyurl.com/electoral-commission)*

Comisiwn Etholiadol

## Her Arwr

Nesaf mae'n rhaid i'n harwr deithio trwy'r **'tair teyrnas' a'i deall** – y **tri math gwahanol o lywodraeth** sydd gennym yn y DU.

# PENNOD 4:

## Mae ein harwr yn deall fod SENEDD a LLYWODRAETH yn ddau beth GWAHANOL IAWN

*Cyn i chi deithio trwy'r tair amgylchfyd, (a elwir hefyd yn 3 math gwahanol o lywodraeth sydd gennym yn y DU ), rhaid i chi, ein harwr democratiaeth gasglu eich 6ed Tocyn Gwybodaeth.*

### Tocyn Gwybodaeth 6

## Mae'r Senedd a'r Llywodraeth yn ddau beth gwahanol iawn.

**Yn syml, mae'r Senedd yn dal y Llywodraeth yn gyfrifol ac yn gwneud y deddfau. Ac mae'r llywodraeth yn rheoli'r wlad neu'r rhan honno o'r wlad.**

**Gwrandewch ar bennod 4 o bodlediad Y Bocs Democratiaeth** (https://tinyurl.com/TDB-Podcast4)

Gwrandewch ar y podlediad

> "..mae gwadu cyfleoedd i bobl ddysgu sut mae'r system yn gweithio a sut i arfer pŵer fel dinasyddion, yw gwadu democratiaeth."

Titus Alexander – Practical Politics

**Yn syml mae'r SENEDD yn golygu TRAFODAETH.**

**Senedd yw'r grŵp o bobl sy'n cael eu hethol i wneud a newid cyfreithiau gwlad a gwirio popeth mae'r Llywodraeth yn ei wneud. Corff deddfwriaethol (deddfu) gwlad yw Senedd ac fe'i gelwir weithiau'n DDEDDFWRIAETH.**

Mae'r ddau air yn golygu sefydliad sydd **â'r pŵer i wneud neu newid deddfau.**


Sy'n wahanol iawn i...

**LLYWODRAETH** Y grŵp o bobl sy'n swyddogol gyfrifol am lywodraethu (rhedeg) y wlad neu ran wleidyddol o'r wlad.

Mae gan **Llywodraeth 1** swydd - rhedeg yr wlad

Mae gan Senedd 2 swydd:

1. DEDDFWRIAETH – Cynnig cyfreithiau newydd a diwygio (newid/gwella) cyfreithiau presennol.
2. ARCHWILIO – Herio ac archwilio neu archwilio popeth yn fanwl ac yn drylwyr mae'r Llywodraeth/Cabinet yn ei wneud.




## Her Arwr

Eich her chi nawr yw deall y gwahanol fathau o senedd yn y DU. Oes, mae mwy nag un senedd!

# Senedd y DU

**Mae Senedd y DU yn gwneud cyfreithiau ar gyfer Lloegr a'r DU. Mae Senedd y DU yn craffu ar Lywodraeth y DU.**
**Mae Senedd y DU (San Steffan yn Llundain) yn cynnwys 3 pheth:**

## 1. Tŷ'r Cyffredin

Dyma'r siambr gyntaf lle mae Aelodau Seneddol yn dadlau ac yn pleidleisio. Gall dinasyddion Prydeinig cyffredin, dinasyddion Gweriniaeth Iwerddon neu ddinasyddion cymwys o'r Gymanwlad sefyll i fod yn AS oni bai eu bod yn cael eu gwahardd oherwydd eu swydd (fel yr heddlu/y fyddin/barnwr/gwas sifil/y Brenin/y Frenhines).

**Gallwch ddarganfod pwy nad all fod yn AS fan hyn** (*https://tinyurl.com/Be-an-MP*).

Be an MP

## 2. Tŷ'r Arglwyddi

Dyma'r ail siambr a'r siambr heb ei hethol. Yn gyffredinol, mae'n rhaid i benderfyniadau a wneir mewn un Tŷ gael eu cymeradwyo yn y llall.

Os bydd Tŷ'r Cyffredin yn cynnig deddf newydd mae angen i Dŷ'r Arglwyddi ei chymeradwyo cyn iddi gael ei chymeradwyo'n gyfan gwbl a'i derbyn gan y Brenin neu'r Frenhines.

Mae'n system siambr ddwyffordd. Rhywystrau a gwrthbwysau. Sy'n sicrhau bod popeth yn deg, yn gywir ac yn briodol.

**Gallwch ddarganfod sut all rhywun fod yn aelod o Dŷ'r Arglwyddi fan hyn** (*https://tinyurl.com/Be-a-Lord*).

Be a Lord

## 3. Y Brenin neu'r Frenhines

Y Brenin neu'r Frenhines sydd â'r gair olaf yn y pendraw ond mewn gwirionedd trefniant seremonïol yw hwn. Nid yw'r Brenin Carlo'r III na chwaith y Frenhines Elizabeth yr II a ddaeth o'i flaen erioed wedi newid cyfraith. Ar un adeg, tan 1642, roedd gan y Brenin neu'r Frenhines yr HOLL bŵer ond yna ffrwydrodd y Brenin Carlo'r I i mewn i'r senedd gan geisio arestio rhai Aelodau Seneddol. Arweiniodd y weithred hon at ddiddymu'r frenhiniaeth am 11 mlynedd!

# Llywodraethau Datganoliedig

**Mae Seneddau Datganoledig Cymru/yr Alban/Gogledd Iwerddon yn gwneud ac yn diwygio eu cyfreithiau eu hunain ar gyfer eu gwledydd datganoledig eu hunain. Mae'r Seneddau datganoledig yn craffu ar y Llywodraethau datganoledig. Er enghraifft, mae Senedd Cymru yn deddfu ar gyfer Cymru ac yn herio ac yn archwilio Llywodraeth Cymru.**

**Nid oes gan seneddau Cymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon ail siambr.**

Mae gan bob senedd ddatganoledig bwerau deddfu a gallant greu deddfau am feysydd datganoledig heb gyfeirio at San Steffan.

Mae'n bwysig iawn felly bod pobl yn y gwledydd datganoledig yn pleidleisio yn etholiad cyffredinol seneddol y DU ac etholiadau Cymru/Albanaidd/Gogledd Iwerddon.

## Her Arwr

Her yr Arwr - rhannwch eich dealltwriaeth o'r gwahaniaeth rhwng y senedd a'r llywodraeth a'r gwahanol seneddau yn y DU gydag o leiaf 2 o bobl a throsglwyddwch y wybodaeth hon gyda phawb rydych chi'n cwrdd â nhw ar eich taith ddemocrataidd trwy'r tair amgylchfyd.

**TAMAID CYFLYM O HANES:** *Hyd at 1999, Senedd y DU oedd ffynhonnell yr holl ddeddfwriaeth ar draws y DU gyfan (roeddent yn gwneud yr holl gyfreithiau ar gyfer pob man). Ers datganoli, mae Senedd yr Alban, Senedd Cymru a Chynulliad Gogledd Iwerddon wedi ymgymryd â'r dasg o basio deddfau ar gyfer eu priod wledydd ac wedi datblygu cyrff cyfreithiol newydd nodedig mewn meysydd o gyfrifoldeb datganoledig.*

**DEDDF LLES CENEDLAETHAU Y DYFODOL (CYMRU) 2015:** *Un o'r cyfreithiau y mae Senedd Cymru wedi'i gwneud yw Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015) sy'n rhoi'r uchelgais, y caniatâd a'r rhwymedigaeth gyfreithiol i bobl yng Nghymru wella ein llesiant cymdeithasol, diwylliannol, amgylcheddol ac economaidd. Mae* ***Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol*** *(https://tinyurl.com/future-generations) yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus yng Nghymru feddwl am effaith hirdymor eu penderfyniadau, gweithio'n well gyda phobl, cymunedau a'i gilydd ac atal problemau parhaus megis tlodi, anghydraddoldebau iechyd a newid yn yr hinsawdd. Mae'r Ddeddf yn unigryw i Gymru, gan ddenu diddordeb o wledydd ar draws y byd gan ei bod yn cynnig cyfle enfawr i wneud newid cadarnhaol, hirdymor i genedlaethau'r presennol a'r dyfodol.*

**Ffaith allweddol**

Mae gan bob senedd ddatganoledig bwerau deddfu a gallant greu deddfau am feysydd datganoledig heb gyfeirio at San Steffan.

Mae'n bwysig iawn felly bod pobl yn y gwledydd datganoledig yn pleidleisio yn Etholiad Cyffredinol Senedd y DU ac yn etholiadau Cymru/yr Alban/Gwladwriaeth Iwerddon.

# PENNOD 5:

## Y DAIR TEYRNAS Y TAIR GWAHANOL fath o LYWODRAETH sydd ganddon ni yn y DU

(*MAE HYNY'N GYWIR* mae ganddyn ni fwy nag un!)

“Un cryfder sydd gan ddemocratiaeth yw ei bod yn gweiddi ‘**cofia dy fod yn farwol**’ yn wyneb gwleidyddion yn feunyddiol.”

---


Willie Sullivan – Yr Alban Goll

# Nesaf mae'n rhaid i'n harwr deithio trwy'r 'dair teyrnas' a deall y tri math o lywodraeth yn y DU

**Teyrnas 1**
Llywodraeth leol

**Teyrnas 2**
Llywodraeth ddatganoledig

**Teyrnas 3**
Llywodraeth y DU




**Gwrandewch ar bennod 3 o bodlediad Y Bocs Democratiaeth**
(https://tinyurl.com/TDB-Podcast3)

Gwrandewch ar y podlediad


# Esboniad o'r tri math o lywodraeth




## 1. Teyrnas Leol

Nid oes yn rhaid i chi deithio'n bell. Dim ond camu allan o ddrws y ffrynt. Bydd gan eich ardal leol, eich tref, dinas neu sir, gyngor lleol / awdurdod lleol / llywodraeth leol sy'n gofalu am yr ardal honno. Mae'n gwneud synnwyr bod ein harwr wedi drysu pan fod cymaint o enwau am un peth! Eich cyngor/awdurdod lleol (sydd hefyd yn cael ei alw'n Llywodraeth Leol) sy'n delio â'r holl bethau lleol. Ysgolion, gwasanaethau ieuenctid a gofal cymdeithasol. Eich cyngor / llywodraeth leol sydd hefyd yn gyfrifol am eich strydoedd a'ch hewlydd lleol, adeiladau cyhoeddus lleol a gwasanaethau yn cynnwys eich llyfrgell, eich sbwriel ac ailgylchu a rhai adeiladau diwylliannol cyhoeddus yn ogystal â mannau agored fel eich parc lleol. Mae gan rai pobl yn y Deyrnas Unedig gyngor llai hefyd, efallai mai cyngor Cymunedol, Tref neu Blwyf yw'r cyngor hwn a bydd ganddo rai dyletswyddau hefyd o fewn eich ardal leol.

Mae'r rhan fwyaf o awdurdodau/cynghorau lleol yn dewis y model 'arweinydd a chabinet' lle mae arweinydd y cyngor yn cael ei ddewis o blith y cynghorwyr gan y blaid sydd â'r mwyafrif o gynghorwyr etholedig. Fodd bynnag, mewn rhai ardaloedd mae model 'maer a chabinet' wedi'i fabwysiadu, lle mae maer a etholir yn uniongyrchol wedi'i sefydlu i gymryd lle'r rôl o arweinydd y cyngor. Yr arweinydd neu'r Maer sy'n dewis y Cabinet sy'n ffurfio'r Llywodraeth Leol.




## 2. Llywodraethau a Seneddau Datganoledig (Cymru, yr Alban, Gogledd Iwerddon)


Mae'n rhaid i chi, ein harwr democratiaeth, deithio ar hyd a lled y Deyrnas Unedig er mwyn archwilio'r holl lywodraethau datganoledig yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Mae pob un o'r llywodraethau datganoledig yn gyfrifol am lawer o bethau sy'n effeithio'n uniongyrchol ar y bobl sy'n byw yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon megis iechyd, addysg, trafnidiaeth a llawer yn rhagor. Rhaid i'n harwr gyfarwyddo ei hun gyda datganoli, llywodraethau datganoledig a phwerau datganoledig a rhaid iddo ddeall bod gan seneddau datganoledig bwerau deddfu ar gyfer yr elfennau datganoledig hyn. Mae'n bwysig cofio - ac mae'n bwysig eich bod chi'n atgoffa pawb fyddwch yn cwrdd ar eich taith - nad llywodraeth y Deyrnas Unedig yn San Steffan sy'n gwneud y penderfyniadau ynghylch y materion hynny sydd wedi eu datganoli, megis iechyd ac addysg, yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon.

K

### Tocyn Gwybodaeth 7

## Y gwahaniaeth rhwng y Prif Weinidog yn San Steffan A Phrif Weinidogion y Llywodraethau Datganoledig

Mae gennym bedwar Prif Weinidog yn y DU. Y Prif Weinidog yn San Steffan ac un Prif Weinidog ym mhob un o'r llywodraethau datganoledig. Prif Weinidog San Steffan sy'n gyfrifol am bob dim yn Lloegr ac unrhyw faterion nad sydd wedi eu datganoli drwy gydol y Deyrnas Unedig. Mae'r rhain yn cynnwys masnach, mewnfudo ac amddiffyn. Mae gennym Brif Weinidogion yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Maen nhw'n gyfrifol am y llywodraethau Cymreig, Albanaidd a'r llywodraeth Wyddelig yng Ngogledd Iwerddon a phob peth sydd wedi ei ddatganoli i'r cenhedloedd hynny sy'n cynnwys addysg, iechyd, trafnidiaeth a diwylliant. Arweinydd y blaid wleidyddol sydd â'r mwyafrif o seddi ym mhob Senedd yw'r Prif Weinidog ac mae'n ffurfio llywodraeth ac yn dewis cabinet.




# 3. Llywodraeth a Senedd y DU

Arweinydd y blaid wleidyddol gyda'r mwyafrif o ASau yn senedd y DU yn dod yn Brif Weinidog ac yn ffurfio llywodraeth a dewis y cabinet.

Mae pa bynnag blaid sy'n ennill etholiad wedyn yn dod yn Llywodraeth ac yn cael ffurfio Cabinet.

Pa bynnag blaid (neu bleidiau) sy'n dod yn ail fydd yr wrthblaid. Os nad oes enillydd clir, efallai y bydd **Llywodraeth Glymblaid**

Mae Llywodraeth a Senedd y DU yn gofalu am rai pethau ar gyfer y DU gyfan (yn bennaf yr hyn sy'n dod i mewn ac yn mynd allan e.e. pobl (mewnfudo), masnach a delio gyda gelynion (amddiffyn) a hefyd cysylltiadau tramor, y cyfansoddiad a sawl agwedd ar bolisi economaidd ar gyfer y DU gyfan. Gelwir y rhain yn bwerau neilltiedig. Mae Pwerau Neilltuedig yn golygu mai dim ond Llywodraeth y DU a Senedd y DU yn San Steffan all wneud penderfyniadau ar y materion hyn.

Dyma'r darn dryslyd am y trydydd deyrnas hon..... Mae Llywodraeth y DU a'r Senedd yn San Steffan hefyd yn gofalu am rai pethau dim ond i bobl sy'n byw yn Lloegr (fel iechyd, addysg, trafnidiaeth, diwylliant) sy'n 'Bwerau Datganoledig' yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon.

## Tocyn Gwybodaeth 8

# Datganoli

Mae'n bwysig iawn bod ein harwr yn deall **datganoli.**

Dim ond gofalu am bethau ar gyfer y DU nad sydd wedi eu datganoli (megis mewnfudo, masnach ac amddiffyn) y mae Llywodraeth a Senedd y Deyrnas Unedig yn gyfrifol. O ran y meysydd sydd wedi eu datganoli (e.e. iechyd ac addysg) dim ond yn Lloegr y mae llywodraeth a senedd y DU yn gyfrifol am y rhain ac nid yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon.

*Felly pan glywch Brif Weinidog y Deyrnas Unedig ar y newyddion yn sôn am iechyd ac addysg dim ond yn ynghylch **Lloegr y mae'n siarad.***

### Ffaith allweddol

Mae **pwerau datganoledig** yn cynnwys iechyd, addysg, diwylliant, chwaraeon, amaethyddiaeth, trafnidiaeth a llywodraeth leol. Mae seneddau datganoledig a llywodraethau datganoledig yn gyfrifol am bob maes sydd wedi'i ddatganoli ac sydd â phwerau deddfu ar gyfer y meysydd hyn fel iechyd ac addysg.

Mae **Llywodraeth y DU** yn gofalu am yr holl bethau i bobl yn **Lloegr** yn unig sydd wedi'u **datganol**i yng **Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon**. Gofalwch hefyd am gysylltiadau tramor, amddiffyn, y cyfansoddiad, mewnfudo a sawl agwedd ar bolisi economaidd y DU gyfan.

Pwerau **neilltuedig** yw'r rhain. Mae hyn yn golygu mai **dim ond Llywodraeth a Senedd y DU** all wneud penderfyniadau ar y materion hyn.

*(A elwir weithiau yn bwerau **EITHRIADOL** yng Ngogledd Iwerddon).*

# PENNOD 6:

# RHEOLAU'R

## gêm rhan 1

# OEDRAN PLEIDLEISIO

"Pan ymunais â'r Bocs Democratiaeth am y tro gyntaf doeddwn i ddim yn gwybod dim byd. Mewn gwirionedd doeddwn i ddim hyd yn oed yn gwybod bod Prydain yn wlad ddemocrataidd."

---

Cyd-grëwr ifanc Y Bocs Democratiaeth, 17 oed

## Cwestiwn:

**Ydy'r Oedran Pleidleisio yn 16 neu'n 18 oed?**

## Ateb:

**Mae'n dibynnu ble rydych chi'n byw a pha etholiad rydych chi'n pleidleisio**




**Mae yna nifer o Docynnau Gwybodaeth yn y bennod hon ac mae'n rhaid i chi, ein harwr democratiaeth, eu casglu i gyd.**

**Pa mor hen sy'n rhaid i chi fod i chwarae?**
**Cymerwch y Cwis Oesoedd Pleidleisio gyda'r Cyd-grewyr Ifanc Lucy a Lloyd**
(https://tinyurl.com/TDB-Video5)

Gwyliwch
y fideo


IS THE VOTING AGE 16 or 18..?
You can be ANY AGE to get involved in democracy by:
freedom of speech!
Have conversations!
Volunteering!
Petition!
Protest!
committee's Research!
Campaign!
School council!
Lobbying!
contact local representative!
Youth Parliament!
civic and civil society!
contact the media!
VOTING AGE depends on where you live and what election!
GENERAL ELECTIONS (UK Parliament) = 18
LOCAL ELECTIONS
•(in England and Northern Ireland) =18
•(Scotland and Wales) = 16
DEVOLVED PARLIAMENT ELECTIONS
•(Northern Ireland) =18
•(Wales/Scotland) = 16
REGISTER !TO VOTE!
•(Wales/Scotland) =14
•(England/Northern Ireland) =16
REGISTER TO VOTE ONLINE

## Tocyn Gwybodaeth 9

# Pa oedran sy'n rhaid i mi fod er mwyn i mi allu pleidleisio?

### Etholiadau Cyffredinol y DU

I bleidleisio mewn Etholiadau Cyffredinol (Senedd y DU h.y. pleidleisio dros ASau) ble bynnag yr ydych yn byw mae'n rhaid i chi fod yn **18 oed**

### Etholiadau Lleol

Gallwch bleidleisio mewn etholiadau cyngor lleol yn Lloegr a Gogledd Iwerddon (cyngor) yn **18 oed** ac i bleidleisio mewn etholiadau cynghorau lleol yng Nghymru a'r Alban yn **16 oed**

### Etholiadau Senedd Datganoledig

Etholiadau senedd ddatganoledig Cymru a'r Alban yn **16 oed**
Etholiad senedd ddatganoledig Gogledd Iwerddon yn **18 oed**

*Mae pobl ifanc 16 oed bellach yn gallu pleidleisio mewn etholiadau senedd ddatganoledig ac Etholiadau Lleol yng Nghymru a Lloegr.*

### Cofrestru i Bleidleisio

**yn 14 oed** os ydych yn byw yng Nghymru neu'r Alban
**neu 16 oed** os ydych yn byw yn Lloegr neu Ogledd Iwerddon

**Gall rheolau pleidleisio newid. Rydym ni, y bobl, a grwpiau fel y Siartwyr a'r Swffragetiaid, wedi mynnu bod y rheolau'n newid i gynnwys pob dyn a menyw yn gyfartal. Mae pobl wedi marw er mwyn i bob dyn a menyw gael pleidlais. Dim ond ym 1928 cafodd pob menyw y bleidlais. Dim ond un person un bleidlais yr ydym wedi ei chael ers 1948 a phleidleisiau i bawb 18 oed a throsodd ers 1969. Cyflwynwyd pleidleisiau yn 16 oed yr Alban yn 2014 ac yng Nghymru yn 2021.**

---

### Gallwch chi gymryd rhan mewn democratiaeth ar unrhyw oedran:

- ymarfer eich rhyddid i lefaru
- gwirfoddoli
- dechrau neu lofnodi deiseb
- protestio
- ymgyrchu
- lobïo
- cysylltu â'ch cynrychiolydd etholedig
- ymuno â senedd ieuenctid
- cymryd rhan yn eich cymuned leol
- a dod o hyd i ffyrdd mawr a bach i gymryd rhan mewn Cymdeithas Ddinesig a Sifil

### Tocyn Gwybodaeth 10

# Pwy all bleidleisio a pha fath o ID sydd ei angen arnaf?

### DU

**Etholiadau Seneddol y DU -** Gall pob dinesydd Prydeinig, Gwyddelig a dinasyddion cymwys o'r Gymanwlad Brydeinig bleidleisio yn etholiadau Seneddol y DU (Etholiadau Cyffredinol).

### Yr Alban a Chymru

**Llywodraeth leol. Etholiadau Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu ac etholiadau Senedd yr Alban a Chymru -** gall bawb sy'n medru pleidleisio mewn Etholiadau Cyffredinol bleidleisio mewn etholiadau yn yr Alban a Chymru yn ogystal â dinasyddion o'r Undeb Ewropeaidd a dinasyddion tramor cymwys.

### ID Pleidleiswyr

Mae Llywodraeth y Deyrnas Unedig wedi cyflwyno amod arall ar bleidleiswyr sef bod yn rhaid iddynt ddangos ID ffotograffig mewn rhai etholiadau. Mae'r rheolai'n wahanol yn dibynnu ar le rydych yn byw o fewn y DU ac ym mha etholiad rydych yn pleidleisio. Er mwyn gwneud yn siŵr eich bod yn gallu pleidleisio, ewch â'ch ID gyda chi bob tro. Gallwch ddod o hyd i restr gyflawn o ba ID gallwch ei ddefnyddio a sut i wneud cais am ID Pleidleiswyr sy'n rhad ac am ddim drwy ymweld â'r dudalen ganlynol
*https://www.electoralcommission.org.uk/cy/pleidleisio-ac-etholiadau/id-pleidleisiwr*

### Tocyn Gwybodaeth 11

# Pwy nad sydd â'r hawl i bleidleisio yn y DU?

Ni allwch bleidleisio yn etholiadau'r DU os ydych yn Frenin neu'n Frenhines, yn Arglwydd yn Nhŷ'r Arglwyddi neu os ydych yn garcharor sydd wedi eich cadw yn y carchar (oni bai mai etholiadau yn yr Alban ydynt a dim ond os ydyw'n ddedfryd o 12 mis neu lai)

Os ydych yn amau unrhyw reolau pleidleisio cofiwch siarad â'r Oracl – **Y Comisiwn Etholiadol** yw tarddiad yr holl wybodaeth ac mae'r wybodaeth hon wedi ei gwirio, mae'n gywir ac yn ddibynadwy. Mae'n rhaid iddo fod yn ôl y Gyfraith!

**Ffaith allweddol**

Er mwyn cymryd rhan mewn democratiaeth fedrwch arfer eich rhyddid i lefaru, cymryd rhan mewn gweithgareddau yn eich cymuned leol, dechrau neu lofnodi deiseb, protestio, ymgyrchu, lobïo, cysylltu â'ch cynrychiolydd etholedig neu ddod o hyd i ffyrdd mawr a bach o gymryd rhan mewn cymdeithas ddinesig a sifil = unrhyw oed!

# MAE EICH PLEIDLAIS

# O BWYS.

# EICH

# HAWL

# YDY O

Cofrestrwch
i bleidleisio

About my
vote

**Cofrestrwch i bleidleisio yn**
https://www.gov.uk/register-to-vote

**Edrychwch ar Y Comisiwn Etholiadol** i gael gwybodaeth gyhoeddus ddiduedd a dibynadwy am eich pleidlais ac yr holl etholiadau (https://tinyurl.com/EC-About-My-Vote)

# PENNOD 7:

# RHEOLAU'R

gêm rhan 2

# SYSTEMAU PLEIDLEISIO

Rydym bron a chyrraedd terfyn ein stori. Dim ond un bennod olaf sydd, tri **Thocyn Gwybodaeth** olaf, un **Ffaith Allweddol** olaf ac un **Her Arwr** olaf.

Rydych chi, ein harwr democratiaeth, wedi croesi tair teyrnas ein gwahanol Seneddau o fewn y DU, rydych wedi deall y gwahaniaeth rhwng Senedd a Llywodraeth, rydych wedi gwirio gyda'r Oracl - Y Comisiwn Etholiadol – ac wedi darganfod y gwahanol fathau o seneddau sydd gennym yn y DU.

Rydych wedi chwilio ac wedi dod o hyd i'ch cynrychiolwyr etholedig ac ystyr y gair democratiaeth.

Erbyn hyn mae gennych ddeg **Ffordd o Gymryd Rhan** drwy gydol y flwyddyn. Nawr, o'r diwedd, byddwch yn darganfod y gwahanol ffyrdd rydym yn cyfri pleidleisiau yn y gwahanol etholiadau o fewn y DU ac yna bydd y stori hon wedi dod i ben ond bydd eich stori chi fel ***arwr democratiaeth*** ond megis dechrau

**Ond cyn hynny**

## Pennod 7...

**Systemau pleidleisio, neu systemau etholiadol, yw'r dull a ddefnyddir i ethol cynrychiolwyr. System bleidleisio sy'n pennu'r rheolau ar sut rydym yn ethol pleidiau ac ymgeiswyr.**

**Mae Tŷ'r Cyffredin, Senedd yr Alban, Senedd Cymru, Cynulliad Gogledd Iwerddon ac awdurdodau lleol y DU i gyd yn defnyddio systemau pleidleisio gwahanol.**

**Gwrandewch ar bennod 5 o bodlediad Y Bocs Democratiaeth** (https://tinyurl.com/TDB-Podcast5)

Gwrandewch ar y podlediad

**Cofiwch wirio'ch papur pleidleisio'n ofalus am gyfarwyddiadau. Efallai y bydd angen i chi roi 'X', tic neu bleidlais gan ddefnyddio rhifau. Mae'r staff yn yr orsaf bleidleisio yno i'ch helpu. Gallwch ofyn cwestiynau iddynt am y broses os nad ydych yn siŵr.**

Mae nifer o systemau pleidleisio

mae rhai'n gofyn am X ar eich papur pleidleisio, mae rhai'n gofyn am rif felly mae'n bwysig darllen y cyfarwyddiadau.

## Tocyn Gwybodaeth 12
# Y Cyntaf i'r Felin (CHP)

yn fath o system etholiadol lle mae'r ymgeisydd gyda'r nifer fwyaf o bleidleisiau mewn etholaeth neu ardal/ardal yn ennill.

### Pwy sy'n defnyddio'r system Gyntaf i'r Felin (CHP)?

Mae Tŷ'r Cyffredin a chynghorau lleol yng Nghymru a Lloegr yn defnyddio'r system yma.

## Tocyn Gwybodaeth 13
# Cynrychiolaeth Gyfrannol (CG)

yn fath o system etholiadol lle mae dosbarthiad y seddi yn cyfateb yn agos i gyfran cyfanswm y pleidleisiau ar gyfer pob plaid er enghraifft, pe bai plaid yn ennill 40% o gyfanswm y pleidleisiau, byddai system gwbl gyfrannol yn caniatáu iddynt ennill 40% o y seddau yn y Senedd neu'r Cyngor hwnnw

### Pwy sy'n defnyddio Cynrychiolaeth Gyfrannol (CG)?


Defnyddir cymysgedd o'r Cyntaf heibio'r Post a Chynrychiolaeth Gyfrannol i ethol Aelodau Senedd Cymru, Senedd yr Alban a Gogledd Iwerddon.

Mae Gogledd Iwerddon yn defnyddio'r dull Pleidlais Sengl Drosglwyddadwy (PSD) i ethol aelodau.

Mae Cymru a'r Alban yn defnyddio'r System Aelodau Ychwanegol

**Mae manteision ac anfanteision i bob math o system etholiadol. Mae llawer o wahanol fathau o Gynrychiolaeth Gyfrannol. Gallwch ddarganfod mwy amdanynt yma** (*https://tinyurl.com/Voting-systems*)

Systemau pleidleisio




**Ffaith allweddol**

Systemau pleidleisio, neu systemau etholiadol, yw'r dull a ddefnyddir i ethol cynrychiolwyr. System bleidleisio sy'n pennu'r rheolau ar sut rydym yn ethol pleidiau ac ymgeiswyr. Mae mwy nag un math yn cael ei ddefnyddio yn y DU ac mae llawer o ddadlau am fanteision ac anfanteision pob un. **Gallwch ddarganfod mwy am y gwahanol fathau o systemau pleidleisio yma** *(https://tinyurl.com/Voting-systems)*

Systemau pleidleisio

**Diolch am ddarllen y stori hon.**

**Erbyn hyn rydych wedi casglu Tri Thocyn Gwybodaeth ar ddeg, Saith Ffaith Allweddol ac rydych wedi dod o hyd i ddeg Ffordd o Gymryd Rhan yn ein democratiaeth ni yn y Deyrnas Unedig.**




**Tocynnau Gwybodaeth**

1. Ystyr y gair democratiaeth
2. Rheol y Gyfraith
3. Y Cyfryngau
4. Rhagfarn
5. Newyddion Ffug
6. Mae'r Senedd a'r Llywodraeth yn ddau beth gwahanol iawn
7. Y gwahaniaeth rhwng y Prif Weinidog yn San Steffan a Phrif Weinidogion y Llywodraethau Datganoledig
8. Datganoli
9. Pa oedran sy'n rhaid i mi fod er mwyn i mi allu pleidleisio?
10. Pwy all bleidleisio a pha fath o ID sydd ei angen arnaf?
11. Pwy nad sydd â'r hawl i bleidleisio yn y DU?
12. Y Cyntaf i'r Felin
13. Cynrychiolaeth Gyfrannol

Y tocynnau hyn yw eich archbŵer.

# Gair o ddiolch ac un her fach olaf gan y Democracy Box ac arwyr democratiaeth y gorffennol, y presennol a'r sawl sydd eto i ddod:-

Diolch am ddarllen y stori hon. Eich **Her Arwr** olaf yw rhannu'r stori hon yn bell ac agos drwy gydol y Deyrnas Unedig nes bod pawb rydych yn eu hadnabod yn gyfarwydd â'r stori. Rhaid i chi roi gwybod i gymaint o bobl â phosib am y **13 Thocyn Gwybodaeth**, y **7 Ffaith Allweddol** a'r **10 Ffordd o Gymryd Rhan** a gwneud yn siŵr bod pawb o bob oed yn cynnwys cenedlaethau'r dyfodol, drwy gydol y deyrnas, yn arwyr democratiaeth yn union fel chi. Yna gallwn ysgrifennu'r bennod nesaf **gyda'n gilydd.**

Dim ond megis dechrau mae eich stori chi.

DEMOCRACY™ THE BOX